

Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth

Entrepreneurship Exchange



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cystadlaethau addysg uwchradd

Cystadleuaeth	Disgrifiad
Bafta games - Young Game Designers	Os ydych chi'n 10-18 oed, mae Dylunwyr Ifanc Gemau BAFTA yn agor byd o gyfleoedd creadigol ac yn eich cefnogi ar daith i wneud gemau gwych. Profiadau unwaith mewn oes gyda'r goreuon ym myd gwneud gemau yn ogystal â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant.
EESW	STEM - Darparu cyfle i blant rhwng 11 a 19 oed gael profiad ymarferol o weithio gyda diwydiannau, busnesau ac addysg uwch, drwy gynnig cyfle iddynt weithio ar brosiectau STEM go iawn. Mae'n cynnwys gweithgareddau cynradd, her F1 mewn ysgolion, prosiect chweched dosbarth EESW a Girls into STEM.
Est Net Next Generation	Mae'r Wobr yn agored i unigolion 16-24 oed sy'n byw, yn astudio neu'n gweithio yng Nghymru ac sy'n frwd dros dechnoleg. £2,000 yw Gwobr Dechnoleg ESTnetNG
MicroTyco - Wildhearts School programme	Gellir cynnal Micro-Tyco ar gyfer Ysgolion (rhad ac am ddim) fel her 4 wythnos annibynnol neu mae modd ei hymgorffori mewn dosbarthiadau fel rhan o Raglen o Ddysgu 8 wythnos, gan ddefnyddio adnoddau rhyngweithiol a

Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth

Entrepreneurship Exchange



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

	<p>chynlluniau gwersi a ddarperir gan WildHearts. Wedi derbyn benthyciad o £1. Gellir cofrestru ar gyfer y Gystadleuaeth Genedlaethol.</p>
<p>Prince's Trust Mosaic Enterprise Challenge</p>	<p>Cystadleuaeth rhwng ysgolion sy'n annog ysbryd entrepreneuriaeth, lle bydd pobl ifanc yn gweithio mewn timau gyda chymorth mentoriaid i gystadlu i fod yn Uwch Bencampwyr yr Enterprise Challenge. Mae'n agored i ddisgyblion ysgol uwchradd 11-16 oed ac mae'n cael ei gynnal rhwng mis Ionawr a mis Mai. Bydd disgyblion yn dysgu am sefydlu a rhedeg busnes drwy gêm fusnes ar-lein, sef Pop-Up.</p>
<p>Cystadleuaeth Sgiliau Cymru</p>	<p>Mae'r prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn darparu ac yn hyrwyddo Cystadlaethau Sgiliau Cymru ar ran y Rhwydwaith Llysgenhadon Sgiliau, sef grŵp o ddarparwyr hyfforddiant o bob cwr o Gymru sydd wedi ymrwymo i gefnogi ac ymgysylltu â chystadleuwyr i gyflawni a llwyddo</p>
<p>The Ryman National Enterprise Challenge</p>	<p>Rhaglen fenter am ddiwrnod llawn sy'n agored i bob ysgol uwchradd yn y DU. Mae'r her yn agored i grwpiau blwyddyn llawn ac mae wedi'i rhannu yn ddau gategori, sef CA3 a CA4 (11-15). Bydd y myfyrwyr yn gweithio mewn timau o chwech ar heriau busnes go iawn, sy'n cael eu gosod gan fusnesau go iawn.</p>

Cyfnewidfa Entrepreneurship Entrepreneuriaeth Exchange



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

<p><u>Young Enterprise Company Programme</u></p>	<p>Addas ar gyfer pobl ifanc 15 – 19 oed Hyd at 32 myfyriwr fesul cwmni Gall sawl cwmni myfyrwyr redeg o'r un ysgol, coleg neu ganolfan Cyfnod hyblyg o 12 wythnos hyd at flwyddyn academiaidd</p>
<p><u>Young Enterprise Tenner Challenge</u></p>	<p>Her Fenter Genedlaethol Rhad ac am Ddim, sy'n helpu myfyrwyr i fagu hyder a pharatoi ar gyfer y byd gwaith. Caiff pob myfyriwr £10 gan y Banc Degpunt a byddan nhw'n defnyddio'r cyfalaf cychwynnol hwn i ddechrau'u menter. Bydd ganddyn nhw fis i sefydlu eu busnes, a meddwl am syniad ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth.</p>
<p><u>Young Enterprise Team Programme</u></p>	<p>fe'i dyluniwyd i helpu myfyrwyr ag anawsterau dysgu yn ystod y cyfnod o symud o addysg i fyw'n annibynnol. Bydd myfyrwyr yn magu hyder ac yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol drwy weithio fel tîm i sefydlu a rhedeg busnes neu fenter gymdeithasol.</p>
<p><u>Tycoon Enterprise Competition</u></p>	<p>Cystadleuaeth fenter genedlaethol i fyfyrwyr rhwng 6 a 18 oed (wedi'i rhannu yn 4 categori). Gellir cystadlu yn rhad ac am ddim. Mae pob tîm sy'n cymryd rhan yn llunio cynllun busnes, yn cael benthyg arian, yn dechrau busnes ac yn cystadlu gyda chwmnïau myfyrwyr eraill drwy lwyfan soffistigedig tebyg i 'kickstarter', mewn amgylchedd diogel sydd wedi'i reoli.</p>